

Ynni Clyfar GB

Cynllun ennyn diddordeb defnyddwyr

Rhagfyr 2015

Cynnwys

Cynnwys	2
1. Cyflwyniad	3
1.1 Cyflwyniad.....	3
1.2 Amcanion Ynni Clyfar GB ac amodau trwydded cyflenwr perthnasol eraill	3
1.3 Cefnogi'r twf yn y nifer targed o osodiadau mesurydd clyfar yn 2016 ac i mewn i 2017.....	4
2. Gwersi o brofi a dysgu yng ngweithgareddau 2015	5
2.1 Taith y cwsmer	5
2.2 Strwythur tasgau cyfathrebu	6
3. Nodau allweddol yn 2016	8
3.1 Ymagwedd Ynni Clyfar GB at newid ymddygiad	8
4. Gweithgareddau marchnata yn 2016	11
4.1 Y cyd-destun strategol ar gyfer marchnata	11
4.2 Cymysgedd o sianelau cyfryngau y telir amdanynt.....	12
4.3 Cyflwyno creadigol yn 2016	13
4.4 Sianelau digidol.....	13
4.5 Marchnata mewn partneriaeth	13
5. Gweithgareddau polisi a chyfathrebu yn 2016	15
5.1 Cysylltiadau cyhoeddus a dargedir at ddefnyddwyr.....	15
5.2 Cyfathrebu a budd-ddeiliaid	16
5.3 Rheoli ymholiadau/gohebiaeth gyhoeddus ag Ynni Clyfar GB	16

1. Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw'r cynllun ennyn diddordeb defnyddwyr diweddaraf a gynhyrchwyd gan Ynni Clyfar GB.

1.2 Amcanion Ynni Clyfar GB ac amodau trwydded cyflenwr perthnasol eraill

Mae'r Diwygiadau i Amodau Safonol y Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan, y Trwyddedau Dosbarthu Trydan a'r Trwyddedau Trawsgludo Nwy (Mesuryddion Clyfar) (o hyn ymlaen "y trwyddedau") yn datgan mai amcanion Ynni Clyfar GB yw:

- Adeiladu hyder defnyddwyr mewn systemau mesuryddion clyfar sy'n cael eu gosod gan gyflenwyr nwy a thrydan;
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r defnydd o systemau mesuryddion clyfar (a'r wybodaeth a gesglir trwyddynt);
- Cynyddu parodrwydd defnyddwyr ynni i ddefnyddio systemau mesuryddion clyfar i newid eu hymddygiad er mwyn eu galluogi i ostwng eu defnydd o ynni; a
- Chynorthwyo defnyddwyr ar incwm isel neu ar fesuryddion rhagdal, neu ddefnyddwyr sydd efallai'n profi rhwystrau ychwanegol wrth fedru gwireddu buddion systemau mesuryddion clyfar oherwydd eu hamgylchiadau neu nodweddion penodol, i wireddu buddion systemau mesuryddion clyfar ac ar yr un pryd parhau i gynnal lefel ddigonol o gynhesrwydd a diwallu eu hanghenion eraill o ran ynni.

Mae'r amcanion hyn yn berthnasol mewn perthynas â defnyddwyr ynni mewn anheddau domestig a, phan fydd yn gost-ffeithiol i estyn gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr a gyflawnir gan Ynni Clyfar GB er mwyn cynnwys ennyn diddordeb defnyddwyr ynni mewn safleoedd dynodedig perthnasol (h.y. cwsmeriaid sy'n ficrofusnesau), mewn perthynas â'r cyfryw ddefnyddwyr.

1.3 Cefnogi'r twf yn y nifer targed o osodiadau mesurydd clyfar yn 2016 ac i mewn i 2017

Mae nifer y gosodiadau mesurydd clyfar a dargedir gan gyflenwyr ynni'n codi'n sylweddol yn 2016 o'i gymharu â 2015; mae'r holl ardaloedd daearyddol yn gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn gosodiadau ac felly mae eithafoedd yr amrywiad daearyddol yn lleoliadau gosodiadau wedi'u targedu'n dirywio rhywfaint wrth i ni symud o 2015 i 2016. Mae hyn yn golygu y bydd yn gynyddol effeithlon ac effeithiol yn 2016 i Ynni Clyfar GB ddefnyddio mwy o sianelau cyfryngau torfol cenedlaethol i chwarae rôl wrth gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fesuryddion clyfar gyda phwysoli sy'n benodol i ranbarthau/demograffeg benodol yn ychwanegu'r elfennau i gyflwyno ein tasgau ymgyrchu pellach yn y ffordd orau.

2. Gwersi o brofi a dysgu yng ngweithgareddau 2015


Trwy gydol ei weithrediad, mae Ynni Clyfar GB wedi ymrwymo i ddefnyddio ymagwedd profi a dysgu er mwyn i ni wella'r ddwy ymagwedd greadigol a'n dewisiadau o sianelau'n barhaus ar gyfer cyflwyno gweithgareddau ennyn diddordeb.

Mae'r ymagwedd profi a dysgu hon wedi'i hategu gan werthusiad cynhwysfawr annibynnol o weithgareddau, ar gyfer gweithgareddau a gyflwynwyd ar raddfa fawr (e.e. hysbysebu, sylw cysylltiadau cyhoeddus) a hefyd wrth ddefnyddio mathau penodol eraill o weithgareddau.

2.1 Taith y cwsmer

Mae'n bleser gennym i ni dderbyn cadarnhad positif gan brofi a dysgu ein bod yn diffinio rôl Ynni Clyfar GB a'r cyflenwyr ynni unigol yn gywir wrth i ni gydweithio trwy gydol taith y cwsmer; o ddysgu'n gyntaf am fesuryddion clyfar i ddefnyddio'r mesuryddion hyn yn llwyddiannus i reoli a lleihau defnydd ynni aelwydydd a microfusnesau. Amlinellir hyn yn ffigur 1 isod.

Ffigur 1: Rolau cydweddol Ynni Clyfar GB a chyflenwyr ynni yn nhaith unrhyw gwsmer unigol



Hyd yn oed yng nghramau 3 a 4, dylid nodi y bydd cwsmeriaid yn elwa o ddeunyddiau a gwybodaeth a gynhyrchir gan Ynni Clyfar GB a ddylunnir i gefnogi profiad y gosodiad a bod yn "niwtral o ran cyflenwyr" neu wedi'u darparu fel "label gwyn" i'w brandio gan gyflenwyr unigol.

2.2 Strwythur tasgau cyfathrebu

Mae gwerthuso annibynnol yn parhau i gadarnhau strwythur cyffredinol y tasgau cyfathrebu rydym wedi'u diffinio i adlewyrchu agweddau cynulleidfaoedd gwahanol hefyd.

<p>Pobl sy'n debygol o feddwl bod technolegau newydd yn "swnio'n dda"</p>	<p>Sicrhau eu bod yn deall ac yn ymwybodol o rolau mesuryddion clyfar a'r camau angenrheidiol i gael mynediad at eu mesurydd clyfar</p>
<p>Pobl sy'n brysur ac yn debygol o feddwl "nad yw hyn yn flaenoriaeth i mi"</p>	<p>Bydd yn bwysig iawn i'n negeseuon ni eu cyrraedd nhw mewn ffyrdd sy'n cyflwyno perthnasedd a phrawf cymdeithasol</p>
<p>Pobl sy'n tueddu i feddwl bod datblygiadau newydd neu gael mynediad i ddatblygiad newydd fel mesuryddion clyfar yn eu gwneud nhw'n nerfus neu'n swnio'n anodd</p>	<p>Mae angen addysgu a chysuro mewn negeseuon a moddau cyfathrebu ac ar gyfer rhai yn y grŵp hwn bydd yn arbennig o bwysig i weld cadarnhad gan bartner y maent yn ymddiried ynddo ochr yn ochr â rôl Ynni Clyfar GB ei hun</p>
<p>Pobl sy'n ddatgysylltiedig o fywyd prif ffrwd ac/neu'n fregus mewn ffyrdd a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd ennyn eu diddordeb yn nhaith y cwsmer (fel a ddisgrifir yn fanwl yn ein cyhoeddiad <i>Ynni clyfar i bawb</i>)</p>	<p>Bydd angen dal dwylo'r cynulleidfaoedd hyn i gefnogi ennyn diddordeb (neu hyd yn oed i ddarparu'r porth ar gyfer ennyn diddordeb a thaith y cwsmer mewn unrhyw ffordd o gwbl). I gyflwyno dal dwylo'n effeithiol, mae cadarnhad gan bartner yr ymddiriedir ynddo (neu hyd yn oed rhoi eu presenoldeb o flaen ein brand ni) hyd yn oed yn bwysicach ar gyfer pobl sy'n dod o dan y grŵp hwn. Bydd cyflwyno marchnata mewn partneriaeth yn hollbwysig yn y maes hwn.</p>

Mae gwerthuso annibynnol wedi cadarnhau ansawdd ymagwedd greadigol Ynni Clyfar GB a'r ymgyrch Gaz a Leccy graidd. Mae Ynni Clyfar GB yn parhau i ddysgu o werthuso i fireinio datblygiad creadigol a negeseuon ond rydym yn falch nad oes angen i ni gynllunio ar gyfer unrhyw ddiwygiad sylweddol i'r ymagwedd greadigol yn 2016. ac yn wir mae lefelau'r rhai sy'n adrodd bod yr ymgyrch yn ennyn eu diddordeb a'i bod yn llawn gwybodaeth yn argoeli'n dda ar gyfer y potensial wrth i Ynni Clyfar GB estyn Gaz a Leccy i sianelau pellach y flwyddyn nesaf.

O ran sianelau'r cyfryngau a brynir/detholiadau prynu cyfryngau, yn 2015 profodd Ynni Clyfar GB sianelau gwahanol trwy werthusiad annibynnol o effeithiolrwydd (gan gynnwys peth profi A/B) a bydd yn defnyddio'r canfyddiadau i ddewis cyfryngau a brynir yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon yn 2016.

Rydym yn falch bod gwerthuso annibynnol wedi adrodd am ganlyniadau cryf o ran effeithiolrwydd cysylltiadau cyhoeddus y cwmni â chwsmeriaid wrth gynyddu sylw cadarnhaol am fesuryddion clyfar, a chyfran Ynni Clyfar GB o'r llais mewn unrhyw ymdriniaeth o fesuryddion clyfar. Er hynny, tasg barhaus yw hon, ac felly mae'r gwerthusiad yn cadarnhau dim ond bod yn rhaid i Ynni Clyfar GB barhau â, ac yn wir, tyfu canlyniadau ac effaith cysylltiadau cyhoeddus â chwsmeriaid

3. Nodau allweddol yn 2016

Dangosodd y *Rhagolwg ynni clyfar* diweddaraf (ein meincnod 10,000 o bobl dwywaith y flwyddyn o agweddau'r cyhoedd a gynhyrchwyd gan Populus ac a gyhoeddwyd fis Medi 2015) fod 23% o boblogaeth oedolion Prydain yn deall beth yw mesurydd clyfar (rydym yn disgrifio hyn fel "deall") a bod 14% o boblogaeth Prydain yn deall beth yw mesurydd clyfar ac yn datgan diddordeb mewn cael un/mae ganddynt un eisoes (rydym yn disgrifio hyn fel "tueddfryd").

Medru gweld y defnydd o ynni mewn punnoedd a cheiniogau (60%) a derbyn biliau cywir (41%) yw nodweddion mesuryddion clyfar sy'n apelio fwyaf ar gyfer y sawl sydd â dealltwriaeth ac maent yn parhau'n negeseuon "porth" pwysig i'w cyfleu wrth i ni anelu at gynyddu dealltwriaeth o fesuryddion clyfar. Serch hynny, credwn y bydd yn bwysig o hyd i gyfathrebu bod yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar yn uwchraddiad cenedlaethol i'r isadeiledd ynni mewn cartrefi ar draws Prydain, gyda buddion ar gyfer aelwydydd unigol ac ar gyfer y genedl gyfan.

3.1 Ymagwedd Ynni Clyfar GB at newid ymddygiad

Wrth gynllunio ymagwedd Ynni Clyfar GB at gyflwyno ein hymgyrchoedd newid ymddygiad, rydym yn ymwybodol o dri chysyniad/her ymddygiadol allweddol sy'n gysylltiedig â'r dasg: syrthni (mae'n well gan bobl wneud dim byd na gwneud rhywbeth), agweddau tymor byr (mae pobl yn hoffi canolbwyntio ar y presennol) a diystyru'r dyfodol (nid yw pobl o reidrwydd yn cydnabod gwerth amcanion tymor hir).

Mae llawer o waith eisoes wedi'i ymrwmo i gyfrifo'r model newid ymddygiad optimaidd ar gyfer nodau Ynni Clyfar GB, gan gynnwys ymchwil ddefnyddwyr sylweddol, ymgynghori â budd-ddeiliaid, modelu sianelau, modelu newid ymddygiad a segmentiad cynulleidfaoedd. Gwnaethom edrych ar fodelau newid ymddygiad ac ymgyrchoedd newid ymddygiad mewn perthynas ag ynni ledled y byd.

Mae'r ymagwedd at ddatblygu a chyflwyno ein strategaeth newid ymddygiad wedi'i hategu gan ein hymrwymiad at brofi a dysgu, wedi'i symbylu gan fewnwelediad o ffynonellau Ynni Clyfar GB ei hun a ffynonellau allanol, ac wedi'i datblygu gyda chefnogaeth gan banel newid ymddygiad arbenigol Ynni Clyfar GB sydd wedi cwrdd nifer o weithiau yn ystod 2015 ac a fydd yn parhau i gwrdd yn ystod 2016 a'r tu hwnt.

Mae Ynni Clyfar GB yn credu y gellir categorioeddio ein hymyraethau cynlluniedig mewn newid ymddygiad yn fras fel a ganlyn:

- Asedau a mewnwleidiad i gefnogi cyflenwyr ynni mewn sianelau uniongyrchol cyn gosodiad (megis copi marchnata uniongyrchol a gyfeirir gan syniadaeth economeg ymddygiadol)
- Asedau a mewnwleidiad i gefnogi cyflenwyr ynni yn ystod gosodiad (megis asedau ffilm i ddefnyddwyr eu gwyllo pan fydd y gosodiad yn digwydd)
- Asedau a mewnwleidiad i gefnogi cyflenwyr ynni ar ôl gosodiad (megis taflenni a gadewir i ennyn diddordeb teuluoedd mewn arbed ynni a'r sgrîn arddangos glyfar)
- Defnyddio partneriaethau cyfryngau i hyrwyddo ymddygiadau sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a mesuryddion clyfar fel normau cymdeithasol newydd
- Defnyddio hysbysebu uwchben y llinell, sianelau cysylltiadau cyhoeddus a chymdeithasol i symbylu negeseuon newid ymddygiad penodol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Defnyddio marchnata mewn partneriaeth i wneud ymyraethau penodol gyda chynulleidfaoedd anos eu cyrraedd

Gall sicrhau newidiadau mewn ymddygiad mor gynnar â phosib yn ystod y daith, hyd yn oed os yw hyn dim ond i annog datgan ymddygiadau bwriadedig cyn gosodiad (y gallwn dybio y byddant yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr ymddygiadau hynny'n dod i'r amlwg) fod yn allweddol i lwyddiant. Gan hynny, bydd tîm Ynni Clyfar GB yn cydweithio â chyflenwyr ynni ac arbenigwyr yn y Tîm Mewnweleidiad Ymddygiadol i brofi geiriad cyfathrebiadau cyn y gosodiad a allai baratoi defnyddwyr ar gyfer y newidiadau ymddygiad disgwylidig. Credwn y bydd ymyraethau yn ystod ac yn syth ar ôl gosodiad yn werthfawr hefyd.

Mae fframwaith negeseuon Ynni Clyfar GB ar gyfer yr ymgyrch hyd at 2020 yn amlinellu llwybr hwylus o'r angen am newid (mae angen moderneiddio'r diwydiant ynni) hyd at ddefnydd parhaus (bod yn rhan ohono). Mae Ynni Clyfar GB yn comisiynu modelu i adnabod pwyntiau allweddol treiddiad mesuryddion clyfar yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn cyfeirio'r dewis o negeseuon mewn sianelau uwchben y llinell. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod economeg ymddygiadol yn sôn am yr hewristig argaeledd - sef, os yw cysyniad ar gael yn gynyddol i'ch cof tymor byr, rydych yn cael eich cynorthwyo i gredu ei fod yn gyffredin.

Bydd y defnydd o iaith trwy gydol yr ymgyrch yn seiliedig ar fewnwleidiad ymddygiadol, ac mae Ynni Clyfar GB yn bwriadu cynyddu'r broses o brofi hyn yn 2016. Er enghraifft, bydd yr effaith waddoli (nid yw pobl yn hoffi colli rhywbeth y maent yn berchen arno, a hynny'n anghymesur yn fwy nag ennill rhywbeth nad ydynt yn berchen arno) yn rhywbeth y byddwn yn ei hystyried wrth fframio arbedion/colledion.

Fel a ddangoswyd gydag ymgyrchoedd newid ymddygiad graddfa fawr blaenorol – y Newid i Deledu Digidol (gweithgareddau penodol 70+), Iechyd Cyhoeddus (partneriaethau, BME) Diogelwch Ffyrdd (grym plant fel eiriolwyr) – mae angen gweithgareddau penodol er mwyn dylanwadu ar gynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd yn benodol (fel a amlinellir gan Ynni Clyfar GB yn y cyhoeddiad *Ynni clyfar i bawb*). Nid yw llwybrau marchnata traddodiadol wedi'u profi i fod mor effeithiol yma, a gweithgareddau penodol yw'r dychweliad gorau ar fuddsoddiad marchnata. Gan hynny, bydd Ynni Clyfar GB yn profi ymyraethau newid ymddygiad yn erbyn y cynulleidfaoedd penodol hyn i sicrhau y gellir mewnblannu'r ymddygiadau gofynnol yn gyffredinol (ac yn wir, i sicrhau nad yw cynulleidfaoedd arbennig o fregus yn gwneud newidiadau amhriodol i'w hymddygiad, megis methu â chynnal lefel ddigonol o gynhesrwydd yn eu cartrefi).

Wrth gwrs, byddai Ynni Clyfar GB eisiau i gryn dipyn o'i ddysgu am newid ymddygiad fod yn werthfawr trwy gael ei roi ar waith gan gyflenwyr ynni yn eu sianelau eu hunain hefyd; ac yn wir mae'n enghraifft bwysig o'r gwerth a ddarparwn ein bod yn cefnogi arfer gorau yn y maes hwn ar draws cyflenwyr

4. Gweithgareddau marchnata yn 2016

4.1 Y cyd-destun strategol ar gyfer marchnata

Wrth i Ynni Clyfar GB anelu at gynyddu lefel y ddealltwriaeth a thueddfryd yn 2016 o'i gymharu â 2015, mae ein hymgyrch bellach yn symud o'r cam pan oedd gweithgareddau marchnata'n seiliedig yn bennaf ar ranbarthau i un lle mae'n fwy effeithlon symud yn gynyddol i sianelau cyfryngau torfol. Yn ei hanfod, hafaliad gwyddonol yw hwn, gan i ni ddefnyddio arfer gorau mewn modelu marchnata i bennu cymysgedd a graddfa'r sianelau marchnata y mae eu hangen i gyrraedd ein nodau.

Ystyrir hyn ochr yn ochr â'r data gosod mesuryddion clyfar diweddaraf a ddarperir i Ynni Clyfar GB gan gyflenwyr ynni trwy DECC, sy'n cynnwys amrywiad daearyddol llawer llai eithafol yn lleoliad gosodiadau wedi'u targedu ar gyfer 2016 o'i gymharu â 2015. Mae'r patrwm hwn o ledaeniad daearyddol mwy gwastad yn parhau wrth i'r ymgyrch gyflwyno symud ymlaen yn 2017, a'r tu hwnt. Gan hynny, er mwyn cefnogi amcanion ein hymgyrch mewn perthynas â chynyddu dealltwriaeth a thueddfryd, byddwn yn canolbwyntio gweithgareddau marchnata yn 2016 er mwyn iddynt barhau â'r cyntaf o ddwy dasg graidd y cwmni:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o fesuryddion clyfar.
- Normaleiddio bodolaeth technoleg mesuryddion clyfar a darbwylo ei bod yn berthnasol.

Ond mae hyn yn awr yn estyn yn sylweddol i'r drydedd tasg (a ddechreuwyd gan Ynni Clyfar GB ar raddfa gyfyngedig yn unig yn 2015):

- Addysg a chysuro ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn mesuryddion clyfar y gallent wynebu rhwystr o ofn bod y dechnoleg yn rhy gymhleth ar eu cyfer neu fod agwedd negyddol guddiedig iddi.

A lansio pedwaredd tasg nad yw Ynni Clyfar GB wedi dechrau arni hyd yma:

- Dal dwylo'r sawl y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt a sicrhau ein bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd â rhwystrau ychwanegol, yn bennaf trwy gyflwyno marchnata mewn partneriaeth â sefydliadau sydd â phresenoldeb eisoes a/neu sefyllfaoedd o ymddiriedaeth unigryw gyda chynulleidfaoedd sy'n fregus neu'n anodd eu cyrraedd mewn ffordd arall.

4.2 Cymysgedd o sianelau cyfryngau y telir amdanynt

Dadansoddiad Ynni Clyfar GB o'r defnyddiau pennaf ar gyfer cyfryngau gwahanol y telir amdanynt yw:

Symbylu ymwybyddiaeth	Defnydd parhaus o hysbysebu y tu allan i'r cartref, radio, marchnata trwy beiriannau chwilio; symud i ddefnyddio cyfryngau cenedlaethol yn 2016, gyda theledu a fideo ar alw'n cael eu cyflwyno am y tro cyntaf.
Cyflwyno perthnasedd a phrawf cymdeithasol	Parhau â'n llinyn gweithgarwch "amcangyfrif" i gynyddu ymwybyddiaeth o berthnasedd a phwysigrwydd y newid i'r profiad cyfredol; defnyddiwn sianelau cymdeithasol i adeiladu'r sgwrs, a chyfryngau tactegol.
Addysgu a chysuro	Darparu mwy o wybodaeth fanwl am yr ymgyrch mewn hysbyserthyglau yn y wasg; defnyddio partneriaethau cyfryngau a chynnwys fideo addysgol i gysuro ymhellach a darparu esboniadau manylach.
Dal dwylo	Defnydd tactegol o gyfryngau ethnig mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o gyfryngau prif-ffrwd yn isel Ymgyrchoedd print a digidol penodedig ochr yn ochr â thalu-fesul-clic i dargedu cynulleidfaoedd Ynni clyfar i bawb. Peth gweithgarwch wyneb i wyneb. Y symbylydd pennaf ar gyfer gweithgarwch yn y maes hwn yw marchnata mewn partneriaeth.

4.3 Cyflwyno creadigol yn 2016

Wrth i Ynni Clyfar GB ddwysau cyflwyniad o fewn sianelau presennol, ac ymestyn i sianelau newydd, byddwn yn:

- Creu'r cam nesaf mewn defnyddio ffilmiau Gaz a Leccy i ennyn diddordeb.
- Datblygu cynnwys ar gyfer achlysuron arbennig, ar amcangyfrif ond hefyd i sefydlu gwell adnabyddiaeth o Gaz a Leccy, er mwyn iddynt fod yn effeithiol pan fyddant yn mynd yn bresenoldeb cynyddol yn y cyfryngau torfol yn ystod 2016 a'r tu hwnt.
- Cynhyrchu'r asedau penodol i'w defnyddio gyda microfusnesau sydd hefyd wedi'u dylunio/addasu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol.
- Cynhyrchu'r gyfres o asedau amldefnydd y gall cyflenwyr a phartneriaid eu defnyddio yn eu cyfathrebiadau allanol a mewnol eu hunain, wedi'u cefnogi gan y canllawiau brand clir sy'n cefnogi ac yn llywodraethu eu defnydd.

4.4 Sianelau digidol

Gwefan Ynni Clyfar GB: Mae ail gam gwefan Ynni Clyfar GB eisoes yn cael ei ddatblygu, a bydd hynny'n allweddol i ddyfnhau'r ffordd y gallwn ddefnyddio sianelau Ynni Clyfar GB ei hun i amlygu buddion mesuryddion clyfar mewn ffordd fywiog, cefnogi defnyddwyr wrth gyfeirio at y daith ymlaen i osodiadau gan eu cyflenwyr, neu at bartneriaid os oes angen cysur neu gefnogaeth ychwanegol arnynt, a hyrwyddo defnydd gwell o ynni mewn aelwydydd ar ôl i fesuryddion clyfar gael eu gosod.

Bydd cam nesaf gwefan Ynni Clyfar GB yn bodoli nid yn unig yn Gymraeg a Saesneg, ond hefyd gyda chynnwys gwe craidd yn y pum iaith ym Mhrydain Fawr y mae eu siaradwyr yn lleiaf hyfedr mewn Saesneg (Pwyleg, Pwnjabeg, Wrddweg, Bengaleg a Gwjarateg).

Sianelau cymdeithasol: O ran ennyn diddordeb y cyhoedd, bydd Ynni Clyfar GB yn cyflwyno negeseuon yr ymgyrch trwy Facebook, yn bennaf ar ffurf Gaz a Leccy. Byddwn yn defnyddio Twitter i bwysleisio ymgyrchoedd ac i hysbysebu storïau newyddion amserol. Mae YouTube eisoes yn cael ei ddefnyddio fel storfa cynnwys cyhoeddus, gan gynnwys cynnwys addysgol, a bydd hyn yn parhau. O 2016 ymlaen, bydd LinkedIn yn ffurfio rhan o'r sianelau cyflwyno hefyd ar gyfer ymgyrchoedd cynulleidfaoedd *Ynni clyfar i fusnes*.

4.5 Marchnata mewn partneriaeth

Mae ymagwedd gyffredinol Ynni Clyfar GB at farchnata mewn partneriaeth (lle mae Ynni Clyfar GB yn cydweithio â sefydliad arall yr ymddiriedir ynddo i gyflwyno'r ymgyrch i gynulleidfaoedd ynghyd, pan all y partner hwnnw helpu Ynni Clyfar GB i fod yn fwy effeithlon ac/neu effeithiol oherwydd ei allu unigryw i gyrraedd cynulleidfaoedd penodol) wedi'i datblygu'n ofalus.

Fodd bynnag, cyflwyno marchnata mewn partneriaeth yw un o'r meysydd yr oedd bwrdd Ynni Clyfar GB wedi dewis dal yn ôl fwyaf yn 2015 o ganlyniad i oedi yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar. Mae hyn oherwydd bod marchnata mewn partneriaeth yn canolbwyntio'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, ar gefnogi estyn allan i gynulleidfaedd a allai wynebu rhwystrau penodol, fel a amlinellir yn *Ynni clyfar i bawb*, ac ni themlodd bwrdd Ynni Clyfar GB ei fod yn iawn i or-ennyn eu diddordeb mewn mesuryddion clyfar mewn cam cynnar o'r ymgyrch. Gan hynny, yn 2015 cyfyngwyd gweithgareddau marchnata mewn partneriaeth i adeiladu'r isadeiledd y mae ei angen i gyflwyno a gwerthuso partneriaethau yn y dyfodol.

Er hynny, wrth i'r ymgyrch gynyddu yn 2016, ac yn benodol gan fod angen i Ynni Clyfar GB baratoi defnyddwyr mwy bregus ac/neu anos eu cyrraedd i gymryd rhan o ddiwrnod o 2017 ymlaen, rydym yn credu bod angen dechrau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol yn 2016 a dechrau gweld gweithgareddau marchnata partneriaeth Ynni Clyfar GB yn cael eu cyflwyno.

Gan hynny, bydd gweithgareddau marchnata mewn partneriaeth Ynni Clyfar GB yn 2016 yn dod o dan dri maes eang:

Cynulleidfaedd â rhwystrau ychwanegol*	Partneriaethau penodol â sefydliadau sy'n drydydd sector a/neu gymunedol yn bennaf. Bydd rhai ar raddfa sy'n mynnu perthynas contract a reolir yn uniongyrchol gan Ynni Clyfar GB; ond bydd nifer ar raddfa lai ac felly yn cael eu rheoli trwy isadeiledd cronfa gynnig.
Cynulleidfaedd sy'n ficrofusnesau	Targedu a chyrraedd cynulleidfaedd sy'n ficrofusnesau trwy bartneriaethau â sefydliadau ymgynghorol a/neu sefydliadau a all ddarparu sianelau cyfathrebu uniongyrchol.
Cynulleidfaedd torfol	Cydweddu â'r defnydd o gyfryngau torfol, i ddarparu mynediad mwy effeithlon i rai grwpiau o'r gynulleidfa dorfol.

*Yn 2016, o'r cymysgedd llawn o gynulleidfaoedd a adnabuwyd yn *Ynni clyfar i bawb*, mae Ynni Clyfar GB yn credu y bydd yn iawn i ni ddechrau canolbwyntio ar y canlynol:

- Pobl ddall neu â golwg rhannol
- Y rhai nad oes ganddynt hyfedredd iaith Gymraeg na Saesneg
- Y rhai sydd â diffyg sgiliau digidol/dim mynediad personol i'r rhyngwrwyd
- Cwsmeriaid systemau gwresogi rhanbarthol
- Y rhai sydd â namau dysgu
- Y rhai sydd â lefelau llythrennedd isel
- Y rhai sydd â nam ar y cof
- Cwsmeriaid nad ydynt ar y grid nwy
- Cwsmeriaid rhagdalau
- Tenantiaid rhentu preifat
- Y rhai sydd â byddardod difrifol neu ddwys
- Tenantiaid tai cymdeithasol

5. Gweithgareddau polisi a chyfathrebu yn 2016

Mae gweithgareddau polisi a chyfathrebu Ynni Clyfar GB yn dod yn fras o dan y meysydd a ganlyn:

- **Cysylltiadau cyhoeddus a dargedir at ddefnyddwyr** ar sail teilyngdod yn y cyfryngau (mewn cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol, printiedig cynulleidfaoedd penodol, ar-lein a darlledu)
- Ennyn diddordeb **budd-ddeiliaid**, gan gynnwys gyda chymuned y cynrychiolwyr etholedig, a chyfraniad at wneud polisi mewn meysydd perthnasol lle gall Ynni Clyfar GB amlygu rôl gadarnhaol mesuryddion clyfar wrth gyflwyno nodau polisi ynni neu nodau polisi ehangach
- Rheoli **gohebiaeth gyhoeddus** ag Ynni Clyfar GB

5.1 Cysylltiadau cyhoeddus a dargedir at ddefnyddwyr

Yn 2015, adeiladodd Ynni Clyfar GB ei swyddogaeth swyddfa'r wasg fewnol er mwyn iddo fedru cynhyrchu symiau sylweddol o sylw cadarnhaol ar sail ei deilyngdod yn y wasg ynghylch mesuryddion clyfar, yn ogystal ag ymateb i'r diddordeb cynyddol mewn mesuryddion clyfar gan gyfryngau defnyddwyr a chyfryngau sy'n canolbwyntio ar bolisi.

Dengys gwerthusiad annibynnol parhaus o sylw yn y wasg mai Ynni Clyfar GB yw'r llais mwyaf ar fesuryddion clyfar ar hyn o bryd.

Mae Ynni Clyfar GB hefyd wedi sefydlu ei hun fel y corff 'r cyfryngau i fynd ato ar gyfer ymdriniaeth bolisi o'r Rhaglen Gweithredu Mesuryddion Clyfar. Er nad yw ymdriniaeth mewn

cyfryngau polisi'n nod pennaf ynddo'i hun, mae'n bwysig sicrhau bod y cyfryngau polisi'n deall nodau'r ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar yn iawn ac yn atal beirniadaeth anwybodus rhag dominyddu, gan y gallai hyn gamarwain barn defnyddwyr prif-ffrwd.

Yn 2016 byddwn yn parhau i gyflwyno meintiau cynyddol a chyson o sylw i ddefnyddwyr, gyda sianel ymyraethau amlach ar sail teilyngdod yn y cyfryngau.

Bydd tîm cysylltiadau cyhoeddus â defnyddwyr Ynni Clyfar GB yn canolbwyntio hefyd ar gynyddu sylw ar sail teilyngdod yn y cyfryngau rhanbarthol i gydweddu â gweithgarwch yn y cyfryngau rhanbarthol y telir amdano, ac yn targedu cyfryngau microfusnes arbenigol i sicrhau sylw sy'n cefnogi amcanion y cwmni mewn perthynas â chynulleidfaoedd sy'n microfusnesau.

5.2 Cyfathrebu a budd-ddeiliaid

Erbyn hyn mae Ynni Clyfar GB wedi sefydlu'r fframwaith ar gyfer ei ymagwedd at weithgareddau cyfathrebu â budd-ddeiliaid ar draws Prydain, wedi iddo fedru asesu natur a lefelau diddordeb budd-ddeiliad yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar trwy gydol 2015, a sut mae'r cynulleidfaoedd hyn eisiau cael eu gwasanaethu. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd hyn yn cynnwys cyfathrebiadau ysgrifenedig rheolaidd, diweddariadau e-bost, digwyddiadau bach, digwyddiadau mwy a nifer bach iawn o arddangosfeydd.

5.3 Rheoli ymholiadau/gohebiaeth gyhoeddus ag Ynni Clyfar GB

Dylunnir ymagwedd Ynni Clyfar GB at gydbwyso taith y cwsmer rhwng y cwmni a'r cyflenwyr ynni (gweler ffigur 1 yn gynharach) i adlewyrchu'r ffaith nad yw'n briodol i Ynni Clyfar GB ddatblygu perthnasoedd unigol â defnyddwyr.

Serch hynny, mae Ynni Clyfar GB eisoes yn derbyn swm penodol o ymholiadau a gohebiaeth gan y cyhoedd, wrth i rai aelodau o'r cyhoedd ymateb ar ôl clywed ni mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau a darllen sylw a roddir i'n hymgyrch yn y wasg. Mae'r aelodau hyn o'r cyhoedd yn troi at Ynni Clyfar GB gyda chwestiynau am fesuryddion clyfar y teimlant fod angen ymateb mwy personol na'r hyn sy'n bosib o'n gwybodaeth a deunyddiau sydd ar gael yn gyffredinol. Ceir rhai aelodau o'r cyhoedd sy'n "selogion" Gaz a Leccy hyd yn oed, ac maent yn cysylltu â ni gan y rheswm hynny. Er nad yw'n amcan i ni gynyddu ymholiadau neu ohebiaeth rhwng y cyhoedd ac Ynni Clyfar GB, mae'n anochel y bydd yn tyfu gan fod cynnydd mewn gweithgareddau cyhoeddus a chynnydd yn ehangder y gweithgarwch hwnnw ar draws sianelau cymdeithasol.

Yn flaenorol nid oedd gan Ynni Clyfar GB unrhyw gapasiti penodedig ar gyfer ymdrin ag ymholiadau a gohebiaeth gan y cyhoedd, ond erbyn diwedd 2015 bydd wedi creu capasiti bach ac

wedi'i ffocysu i reoli ymholiadau dros y ffôn ac ysgrifenedig (trwy'r post ac e-bost) a fydd hefyd yn cydweithio'n agos â'r tîm digidol i frysbennu ac ymateb i ymholiadau sy'n cyrraedd trwy sianelau digidol.